


Cyflwyniad/Introduction

Trefnwyd yr ugain alaw a gyhoeddir yma i'w cyflwyno trwy gyfrwng ffligt a thelyn neu ffidil a thelyn. A dyfynnu y trefnydd: "Maent yn ddigon addas i'w defnyddio ar gyfer astudio, pleser neu fel cerddoriaeth gefndir".

Alawon sy'n gysylltiedig â chaneuon gwerin yw'r mwyafrif ohonynt ond mae eraill yn alawon traddodiadol a gysylltir yn arbennig â'r delyn. Roedd i'r tant, fel i'r llais, ei draddodiad 'llafar'; hynny yw, trwy wyliau a gwrandio ar ei gilydd y dysgai llawer o'r telynoriion yr alawon a gasglent, nid trwy ddarllen llyfrau a llawysgrifau. Mae yma, hefyd, dair alaw a gyfansoddwyd yn benodol ar gyfer y delyn gan John Parry ('Bardd Alaw', 1776-1851), un o gyfansoddwyr toreithiog y ganrif ddiwethaf ac un a oedd yn awyddus, fel John Parry ('Parry Ddall'), Rhiwabon, ac Edward Jones, ('Bardd y Brenin'), o'i flaen, i gyflwyno alawon traddodiadol eu gwlaid i'r byd.

Mae Meinir Heulyn, hithau, yn yr un llinach anrhydeddus: yn delynores o'r radd flaenaf ar lwyfan, mewn theatr a stiwdio, yn drefnydd a chyhoeddwr alawon, ac yn hyfforddi disgylion i'w chwarae ar y delyn. O'r gweithgaredd ymroddgar hwn y tardd y casgliad presennol. Diamau y bydd o werth mawr i ysgolion ac amrywiol sefydliadau cerddorol. Hwyl ar y byseddu - a'r anadlu!

DR. MEREDYDD EVANS



The twenty melodies published in this volume are arranged for flute or violin and harp. To quote the arranger: 'they are suitable for study, background music or pleasure itself'.

While most of the arrangements are based on folk-songs, others use melodies traditionally linked with the harp. Like singing, *harping* has its own aural tradition: that is to say, through playing and listening to each other, many harpists learnt more about the music than from books and manuscripts. Also in this collection are three tunes written especially for the harp by John Parry ('Bardd Alaw, 1776-1851), one of the many composers of the last century, like John Parry ('Bardd Ddall'), and Edward Jones ('Bardd y Brenin') before him, who were eager to present their country's music to the world at large.

Meinir Heulyn is herself part of this tradition: a first rate harpist of the concert platform, theatre and studio; an arranger and publisher of folk music and a well-known harp teacher. From this devoted work springs the present collection. It will be invaluable in schools and other musical establishments. Good plucking-and blowing!

DR. MEREDYDD EVANS



Nodiadau Astudio

Ysgrifennwyd *Sain y Werin* ar gyfer fy nisgyblion i ateb eu galw am drefniannau poblogaidd yn defnyddio'r delyn. Fel telynores gerddorfaol ac athrawes y delyn rwy'n ymwybodol nad yw telynoriol yn cael yr un profiad â'r rhan fwyaf o offerynwyr o chwarae *ensemble*. Roedd yn naturiol i mi droi at gerddoriaeth werin Cymru am y trefniannau yma yn enwedig gan fod llawer o'n telynoriol yn awyddus i chwarae'r math yma o gerddoriaeth ond yn cael anhawster i ddarganfod trefniannau addas.

Yn y casgliad yma o ugain o'n alawon traddodiadol adnabyddus, dewisais y ffliwt neu'r ffidl fel yr offeryn *solo*, ond gellir chwarae'r rhan fwyaf o'r alawon ar offerynnau eraill, ac yn naturiol ddigon gellir defnyddio'r piano yn lle y delyn.

Mae yna ddau unawd ar gyfer y delyn ac un ar gyfer y ffliwt; - eu pwrpas yw rhoi amrywiaeth a hoe fach i'r ddau offerynnwr pan chwaraeir y llyfr fel cyfanwaith. Mae'r llyfr ar y ffurf yma yn ddelfrydol fel cerddoriaeth gefndir. Os dymunwch berfformio'r alawon yn unigol neu fel grŵp o alawon, yna gellwch gyfnewid y bariau cyswllt am ddiweddeb syml. Mae'n bosibl defnyddio'r delyn geltaidd yn lle'r delyn bedal ar gyfer rhai o'r alawon, ond bydd yn rhaid symleiddio ychydig ar ran y llaw chwith. Gellir prynu tâp caset o'r trefniannau yma ac mae dau bwrpas iddo.

1. Gwrando ar y perfformiad fel cyfanwaith. (ar ochr 1).
2. Ymarfer gyda'r tâp drwy chwarae rhan y delyn neu'r ffliwt arwahan. (diwedd ochr 1 a ochr 2).

Ychwanegwyd curiadau clic mewn rhai mannau priodol i hwyluso ymarfer. Mae'n rhaid gwrando ar y curiadau *clic* hyn ar ddechrau rhai darnau er mwyn gosod y tempo. Fe'u lleolir cyn yr erwydd e.e., mae **4↓** yn golygu bod yn rhaid gwrando ar bedwar curiad clic gwerth ↓ yr un cyn dechrau chwarae. Mewn mannau eraill gellir clywed curiadau clic ynghanol darn; mae hyn i gynorthwyo'r telynoriol yn chwarae yn y tempo cywir cyn i'r ffliwt ailddechrau chwarae h.y., defnyddiwr y curiadau clic fel metronôm. Bydd y cyfan yn gwneud synnwyr ar ôl clywed y tâp nifer o weithiau!

Gobeithio y gwnewch fwynhau *Sain y Werin*.

MEINIR HEULYN

Study Notes

Sain y Werin was written following frequent requests from my students for popular arrangements using the harp. Also, as an orchestral player and teacher, I am aware that harpists tend to have less experience of ensemble playing than other instrumentalists. It was natural for me to turn to Welsh folk music for my arrangements, especially since many of our harpists are keen to play from this source but have difficulty finding versions suitable for performance.

In this selection of twenty well-known melodies I have chosen the flute or violin as the solo instrument, though most pieces could be played on other instruments; the harp part, as would be expected, can be played on the piano.

There are two harp solos and a flute solo, positioned to add variety and provide for rest when the medley is played as a whole. In this form the pieces are ideal as background music. If they are to be played singly or in groups, just replace the harp's link sections with a simple cadence. Some of the music is playable on the celtic harp with a few minor omissions in the left hand.

A cassette tape of these arrangements is available. In addition to the complete performance, the harp and the flute parts can be heard separately for the purpose of rehearsal. Click beats have been added at some places to co-ordinate the 'tape' performer and the live performer:-

1. Where the clicks help begin a piece, their number is printed before the first stave, e.g. **4↓** meaning four clicks in crotchet time before you play.
2. Elsewhere the clicks will sound to help co-ordinate a solo section with the next flute entry; just follow them like a metronome.

The logic of all this is clear once the tape has been heard a few times!

I hope you will enjoy *Sain y Werin*.

MEINIR HEULYN